*These notes refer to the Deddf Trais Yn Erbyn Menywod, Cam-Drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015 (c.3)*

# DEDDF TRAIS YN ERBYN MENYWOD, CAM-DRIN DOMESTIG A THRAIS RHYWIOL (CYMRU) 2015

---

## EXPLANATORY NOTES

### SYLWEBAETH AR ADRANNAU

***Adran 1* - Diben y Ddeddf hon**

4. Mae'r adran hon yn egluro diben y Ddeddf, sef gwella'r canlynol:

- y trefniadau ar gyfer atal trais ar sail rhywedd, cam-drin domestig a thrais rhywiol;
- y trefniadau ar gyfer amddiffyn dioddefwyr trais ar sail rhywedd, cam-drin domestig a thrais rhywiol; a
- y cymorth i bobl yr effeithir arnynt gan drais ar sail rhywedd, cam-drin domestig a thrais rhywiol.

5. Caiff amrywiol swyddogaethau'r cyrff cyhoeddus y darperir ar eu cyfer yn y Ddeddf hon eu cyfeirio at gyflawni'r diben hwn. Mae unrhyw gyfeiriad yn y Ddeddf (ac yn y nodiadau hyn) at ddiben y Ddeddf yn gyfeiriad at y diben hwn.